**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2015-16**

**Ysgogiadau Trethiant - Y Dreth Gyngor**

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad manwl o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Dylai hwn gynnwys effaith ariannol y cynllun ar awdurdodau unigol.**

Cwblhawyd adolygiad o'r trefniadau yn y tymor hwy ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Treth Gyngor ym mis Hydref.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan swyddogion o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac ymgysylltwyd â Llywodraeth Leol, Sefydliadau yn y Trydydd Sector a'r cyhoedd drwy ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr. Ystyriodd yr adolygiad weithrediad Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ers iddynt gael eu cyflwyno yng Nghymru ym mis Ebrill 2013 ac edrychodd hefyd ar effeithiau ehangach diwygiadau lles ac ymchwil newydd ar effaith newidiadau i Gymorth y Dreth Gyngor yn Lloegr.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, cytunodd Llywodraeth Cymru i gadw'r hawliadau ar gyfer pob ymgeisydd cymwys ac i barhau â'r trefniadau ariannu presennol am ddwy flynedd arall (2015-16 a 2016-17). Mae'r cymorth parhaus hwn i lywodraeth leol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol yn adlewyrchu trefniadau perchenogaeth a rennir Cynllun Gostyngiadau'r Treth Gyngor, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â llywodraeth leol ac sy'n rhoi cymorth i ymgeiswyr gyflawni eu rhwymedigaeth treth gyngor a bennir yn lleol.

Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad y Cynllun ac yn gweithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod y trefniadau hyn yn parhau'n addas at y diben.

**Ysgogiadau Trethiant - Ardrethi Annomestig**

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am y ffordd y bydd yn monitro cywirdeb rhagolygon**

**derbyniadau Ardrethi Annomestig yn ystod y flwyddyn ac yn gwella cywirdeb y rhagolygon hyn yn y dyfodol.**

**Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywodraeth gwblhau ei negodiadau gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi cyn gynted â phosibl a darparu manylion y trefniadau y mae'n cynnig eu rhoi ar waith er mwyn rheoli goblygiadau unrhyw amrywioldeb o ran trethiant.**

Fel y cyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref, cytunwyd i ddatganoli polisi ardrethi annomestig (ardrethi busnes) yn llawn. Bydd trefn gwbl ddatganoledig ar waith erbyn mis Ebrill 2015. Mae angen ymdrin o hyd â rhai manylion ynglŷn â'r union drefniadau cyllidebol a fydd ar waith a bydd y rhain yn destun cyd-drafod parhaus.

Er bod system ar waith ar gyfer rhagweld a monitro derbyniadau Ardrethi Annomestig yn ystod y flwyddyn, mae ystyried gofynion gwybodaeth er mwyn sicrhau rhagolygon cywir o refeniw Ardrethi Annomestig yn dilyn datganoli Ardrethi Annomestig yn llawn i Gymru yn rhan bwysig o'r rhaglen waith sy'n mynd rhagddi ar ddatganoli Ardrethi Annomestig. Bydd y rhaglen waith ar ddatganoli Ardrethi Annomestig yn nodi'r newidiadau sydd eu hangen i'r system hon os caiff Ardrethi Annomestig eu datganoli'n llawn.

Fel y cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ei llythyr i'r Pwyllgor Cyllid ar 16 Hydref, rydym yn bwriadu cyhoeddi manylion unwaith y daw'r negodiadau i ben.

**<u>Fforddiadwyedd - Gwariant</u>**

**Argymhelliad 4: Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl, yn ystod ail flwyddyn y system gynllunio ariannol newydd, y dylai fod gan bob un o gyrff y GIG gynlluniau tair blynedd cadarn y cytunwyd arnynt ac mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod hyn yn digwydd.**

Roedd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn cynnwys gofyniad statudol i sefydliadau'r GIG baratoi cynlluniau tair blynedd integredig, a fydd yn arwain at broses graffu a

herio fwy ffurfiol, ac ar yr un pryd yn sicrhau gwell ansawdd drwy integreiddio elfennau gwasanaeth, y gweithlu ac elfennau ariannol.

Yn ddiweddar, gwnaethom adnewyddu a diweddaru'r fframwaith a'r canllawiau cynllunio er mwyn hwyluso'r gwaith o baratoi a chyflwyno'r cylch nesaf o gynlluniau tair blynedd integredig, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod o 2015-16 i 2017-18. Wrth inni weithio tuag at y dyddiad cyflwyno, sef 31 Ionawr 2015, byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithdai a chyfarfodydd adolygu gan gymheiriaid er mwyn sicrhau bod y cylch nesaf o gynlluniau tair blynedd yn ddigon estynedig a datblygedig i fodloni ein gofynion.

Yn dilyn proses herio a chraffu briodol gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gobeithio y byddwn mewn sefyllfa i gymeradwyo cynlluniau ychwanegol yn ogystal â’r pedwar cynllun a gymeradwywyd eisoes ar gyfer y cyfnod tair blynedd presennol. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi'n glir mai dim ond y cynlluniau hynny sy'n bodloni'r gofynion cynllunio yn llawn ac a all ddangos sefyllfa ariannol gadarn, realistig a chytbwys dros y cyfnod o dair blynedd a gaiff eu cymeradwyo.

**Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywodraeth gynnal adolygiad trylwyr o'r broses a ddefnyddir ar hyn o bryd i gostio deddfwriaeth a chynnwys y costau yn y gyllideb. Dylai'r adolygiad ystyried y broses ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig yn ogystal â deddfwriaeth bresennol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella tryloywder y gyllideb, gan gynnwys egluro costau deddfwriaeth. Yn unol â hyn, mae pob Gweinidog yn asesu costau deddfwriaeth a'r effaith ar y rheini y mae’n effeithio arnynt fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisi.

Fel y dywedodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wrth y Pwyllgor Cyllid, cynhelir asesiad effaith rheoleiddiol ar bob eitem o ddeddfwriaeth ac mae'n cynnwys yr amcangyfrifon gorau o effaith ariannol y ddeddfwriaeth, gan gynnwys dros ba gyfnod o amser y byddai disgwyl i gostau o'r fath godi. Rydym yn adolygu'r wybodaeth hon yn barhaus er mwyn sicrhau bod y costau ariannol yn ystyried

datblygiadau polisi pellach neu er mwyn adlewyrchu newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth yn ystod y broses graffu. Yn bwysig ddigon, caiff Pwyllgorau'r Cynulliad hefyd gyfle i graffu ar gostau cyfnewidiol yn ystod hynt arferol deddfwriaeth drwy'r Cynulliad.

O ran cynnwys costau yn y gyllideb, rydym wedi ceisio gwella'r wybodaeth a ddarperir gennym am ddeddfwriaeth yn Naratif y Gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn unol â'n hymrwymiad i adolygu ein dull gweithredu yn barhaus er mwyn sicrhau bod costau yn gadarn. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2015-16, rydym wedi darparu Atodiad i Naratif y Gyllideb am y tro cyntaf sy'n dangos costau ychwanegol deddfwriaeth a ddeddfwyd yn flaenorol a deddfwriaeth ddrafft sy'n berthnasol i gyfnod y Gyllideb hon, lle y cyflwynwyd Biliau i'r Cynulliad. Croesawyd hyn gan y Cynulliad.

Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu'r dull gweithredu hwn er mwyn ategu trefniadau i graffu ar ein cynlluniau gwariant ac ystyried opsiynau i wella'r wybodaeth ariannol a gaiff ei darparu mewn perthynas â'n deddfwriaeth ymhellach mewn cyllidebau yn y dyfodol.

**<u>Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus</u>**

**Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r disgwyliadau a'r amserlenni ar gyfer y diwygiadau arfaethedig ym meysydd iechyd a llywodraeth leol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel ledled Cymru, gan gynnwys cefnogi diwygiadau lle bo'u hangen.

O ran iechyd, rydym yn llywio diwygiadau drwy'r cynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd. O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) (y Ddeddf), mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) baratoi cynllun tymor canolig integredig, sy'n nodi sut y bydd yn gwella gofal iechyd ac yn ei ddarparu i'w boblogaeth breswyl, gan ddefnyddio ei ddarpariaeth graidd. Bydd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2015-

16, y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno ym mis Ionawr 2015, yn helpu i lywio'r dyraniad a wneir i bob BILl yn 2015-16.

Ategwyd y Ddeddf gan fframwaith cynllunio newydd cadarn a gyflwynwyd i sefydliadau'r GIG yn ystod yr hydref y llynedd. Bydd y fframwaith hwn yn helpu i gyflawni'r uchelgais gyffredin ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod a'r ymrwymiad parhaus i ganolbwyntio ar well canlyniadau i gleifion, yn unol â'n hegwyddorion gofal iechyd darbodus.

Bydd diwygiadau yn parhau i gael eu cyflawni'n gyson drwy ganoli gwasanaethau hynod arbenigol, darparu mwy o ofal yn y gymuned yn agosach at gartrefi cleifion, atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth gyffredin, gwella'r trefniadau ar gyfer integreiddio â'r gwasanaethau cymdeithasol ymhellach ac anelu at gyflawni'r agenda gofal iechyd darbodus ym mhob gwasanaeth a ddarperir gennym.

O ran diwygiadau o fewn llywodraeth leol, nododd y Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, amserlenni manwl. Yn dilyn hyn, cyhoeddodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus brosbectws ar gyfer cynigion i uno'n wirfoddol gyda dyddiad cau o 28 Tachwedd ar gyfer datgan diddordeb. Bydd angen cyflwyno cynigion uno wedi'u datblygu'n llawn erbyn mis Mehefin 2015. Ailbwysleisiodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yr amserlen hon yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 23 Medi.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog hefyd gynigion ar gyfer Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus i helpu yn ystod y broses drawsnewid.

Gan edrych i'r dyfodol, ym mis Ionawr 2015, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei Bil Llywodraeth Leol cyntaf a byddwn hefyd yn cyhoeddi'r prif Bapur Gwyn ar Lywodraeth Leol ddechrau 2015 a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth am ein gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol. Yn ddiweddarach yn ystod Hydref 2015, byddwn yn cyhoeddi Bil Diwygio Llywodraeth Leol drafft i'w weithredu ar ôl 2016.

**Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywodraeth roi amcangyfrif realistig o'r costau, y manteision a'r amserlenni sy'n gysylltiedig**

**ag uno cyrff llywodraeth leol. Dylid egluro ymhellach y cymhellion sydd ar gael i awdurdodau lleol sy'n uno.**

Byddwn yn cyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau'n briodol ochr yn ochr â'n deddfwriaeth, a fydd yn darparu manylion llawn y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â diwygio llywodraeth leol. Bydd hyn yn berthnasol i gynigion gwirfoddol i uno yr ydym yn anelu at ddeddfu ar eu cyfer yn ystod tymor hwn y Cynulliad, ac i'r rhaglen uno fwy cynhwysfawr rydym yn anelu at ddeddfu ar ei chyfer yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Mae tymor nesaf y Cynulliad y tu hwnt i ffiniau Cyllideb 2015-16, ond bydd y rhaglen uno gynhwysfawr arfaethedig yn ystyriaeth bwysig ym mhroses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2015-16.

O ran cynigion i uno’n wirfoddol a'r cymhellion a fydd ar gael, gwahoddwyd Awdurdodau Lleol i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â chynigion i uno’n wirfoddol erbyn 28 Tachwedd. Mae’r cynigion hyn yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Rydym wedi datgan y câi unrhyw gynnig ei asesu ar sail ei rinweddau ac y byddem yn rhoi cymorth fel y bo'n briodol. Dyna'r broses sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd.

O ran rhoi manylion y cymhellion sydd ar gael i helpu Awdurdodau Lleol fel rhan o'r broses uno, mae adran 8 o'r Prosbectws Uno Gwirfoddol yn nodi enghreifftiau o'r gwahanol fathau o gymorth a allai fod ar gael.

## Gwariant Ataliol / Cynllunio Ariannol

**Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog roi diffiniad realistig, cryno a derbyniol o'r hyn sy'n gyfystyr â gwariant ataliol.**

**Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu rhestr gynhwysfawr o wariant ataliol, yn seiliedig ar feini prawf mwy eglur, er mwyn nodi faint o bob portffolio a ddyrennir i wariant ataliol o flwyddyn i flwyddyn er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ddangos ei bod yn symud tuag at gyllideb sy'n canolbwyntio**

**mwy ar wariant ataliol.**

Wrth graffu ar y gyllideb eleni, daeth consensws clir i'r amlwg ar bwysigrwydd atal ac ymyriad cynnar, yn enwedig yng nghyd-destun cyni cyllidol parhaus.

Tynnodd cynigion y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd gennym ar 30 Medi sylw at lawer o enghreifftiau ym mhob portffolio lle rydym yn buddsoddi mewn gwaith ataliol. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi croesawu'r gwelliannau a wnaed gennym i roi mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn cefnogi gwaith ataliol drwy ein cyllideb. Fodd bynnag, mae'r broses graffu hefyd wedi dangos bod angen diffinio'n glir beth rydym yn ei olygu wrth wariant ataliol.

Yn hynny o beth, nodwn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid a bydd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ceisio datblygu'r dull gweithredu a roddwyd ar waith gennym eleni er mwyn rhoi mwy o eglurder am y ffordd y mae ein cyllideb yn cefnogi ymyriadau ataliol.

**Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog edrych unwaith eto ar ddyraniadau'r Rhaglen Cefnogi Pobl, er mwyn ailystyried y penderfyniad i leihau cyllid.**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyllideb Derfynol 2015-16 ar 2 Rhagfyr. Dim ond newidiadau bach a gynigiwyd i Gyllideb Ddrafft 2015-16, gan adlewyrchu ein hyder ein bod wedi datblygu cynlluniau gwariant cadarn a fydd yn ein galluogi i gefnogi ein blaenoriaethau o fewn y gyllideb sydd ar gael.

O ran y Rhaglen Cefnogi Pobl, fel y nododd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos iawn â rhanddeiliaid, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Rhaglen, i ystyried y ffordd orau o liniaru effaith gostyngiadau cyllidebol lle y bu'n rhaid gwneud gostyngiadau o'r fath.

**Cyllid Iechyd**

**Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y dystiolaeth anghyson a gafodd ynglŷn â'r rhesymeg dros y cynnydd mewn adnoddau. Mae'r Gweinidog yn haeru y bydd diwygiadau yn cyd-fynd â'r arian ychwanegol i'r sector iechyd, ond mae tystion o'r sector iechyd wedi dweud y caiff yr arian ei ddefnyddio i 'lenwi bwlch'. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywodraeth gadarnhau'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.**

Mae'r adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield yn nodi'n glir yr heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru yn y dyfodol. Daw i'r casgliad bod y GIG yng Nghymru yn fforddiadwy yn y dyfodol os caiff gyfran o'r incwm cenedlaethol ac os bydd yn parhau i gyflawni'r arbedion o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a wnaed ganddo yn y gorffennol. Mae'r adroddiad yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y camau gweithredu y mae'r GIG eisoes wedi'u cymryd i ddiwygio ac ail-lunio ei wasanaethau ond mae angen inni wneud mwy a pharhau i wireddu'r buddiannau a ddaw yn sgîl darparu ein gwasanaethau mewn ffordd wahanol.

O ganlyniad, defnyddir yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16, ynghyd â chyfanswm y gyllideb gofal iechyd bresennol, i barhau i ddarparu'r gwasanaethau diogel o ansawdd uchel y mae ein cleifion yn eu disgwyl gan sicrhau, ar yr un pryd, y caiff y gyllideb gyfan ei defnyddio mewn ffordd sy'n cyfrannu at ail-lunio a diwygio'r ffordd y darperir ein gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau ein bod ar sail fwy cynaliadwy. Hefyd, yn dilyn Datganiad yr Hydref yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y byddem yn dyrannu’r holl gyllid canlyniadol refeniw iechyd, sef £70m, er mwyn darparu cymorth ychwanegol wedi’i dargedu i ddiwygio’r GIG. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y ffordd y defnyddir y cyllid hwn maes o law.

Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd defnyddio’r holl gyllid sydd ar gael er mwyn helpu i ail-lunio a diwygio’r gwasanaeth iechyd. Cyflëwyd y neges hon yn gryf i'r GIG

yn y fframwaith a'r canllawiau cynllunio newydd a gyhoeddwyd ar 31 Hydref 2014. Bydd cynlluniau'r GIG yn allweddol o ran nodi sut y byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn wahanol, yn enwedig o ran yr agenda gofal iechyd darbodus a'n ffocws ar ddarparu mwy o ofal yn y gymuned, yn agosach at gartrefi pobl. Dylai'r cynlluniau ddangos y newid a'r ffocws ychwanegol hwn yn glir drwy fuddsoddi mwy yn y maes hwn, o ddyraniad craidd y bwrdd iechyd ac o'r arian ychwanegol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16.

Yn y bôn, bydd y cynlluniau yn dangos sut y bydd dyraniad ariannol pob un o'r byrddau iechyd yn cefnogi buddsoddiadau er mwyn newid gwasanaethau tra'n parhau i ddarparu'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywodraeth roi manylion yr union ddiwygiadau y bydd disgwyl i'r gwasanaeth iechyd eu cyflawni a'r canlyniadau ariannol os na welir unrhyw ddiwygiadau.**

Er mwyn i'r GIG barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy yn y dyfodol ac ateb y galw a ragwelir, rhaid iddo newid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau. Mae adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y camau gweithredu y mae'r GIG eisoes wedi'u cymryd ac yn datgan fod hyn wedi lleihau'r gofynion ariannu a ragwelwyd o £1.2bn posibl i £221m erbyn 2015-16. Mae mesurau megis gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant, gostyngiadau o ran hyd arhosiad cleifion mewn ysbytai a gostyngiadau yn nifer y cleifion a gaiff eu derbyn i'r ysbyty oll wedi cyfrannu at hyn. Bydd y camau gweithredu hyn yn parhau gydag mwy o arbedion posibl yn deillio o gynigion i ganoli gwasanaethau hynod arbenigol, darparu mwy o ofal yn y gymuned yn agosach at gartrefi cleifion, atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth gyffredin, gwella'r trefniadau ar gyfer integreiddio â'r gwasanaethau cymdeithasol ymhellach ac anelu at gyflawni agenda gofal iechyd darbodus ym mhob gwasanaeth a ddarperir gennym.

Mae'r canllawiau cynllunio diwygiedig yn nodi'n glir ein disgwyliadau o ran y newidiadau rydym yn disgwyl eu gweld. Bydd graddau'r diwygiadau a'r newidiadau y mae sefydliadau'r GIG yn bwriadu eu gwneud yn amlwg o fewn eu cynlluniau integredig tair blynedd y disgwylir iddynt eu cyflwyno ym mis Ionawr. Er mwyn cael

cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, bydd angen iddynt ddangos yn glir sut y bydd diwygiadau o'r fath yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion polisi ac yn galluogi iddynt barhau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi ei ddisgwyliad bod yn rhaid i fyrddau iechyd lleol weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

**Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymell, yn y dyfodol, na ddylid cyhoeddi symiau mawr o arian yn ystod y flwyddyn ar yr un pryd ag y caiff y Gyllideb Ddrafft ei chyflwyno.**

Bob blwyddyn ariannol, rydym yn monitro ein cyllideb yn ofalus ac yn dyrannu ein cronfeydd wrth gefn mewn ymateb i bwysau a chyfleoedd wrth iddynt godi. Yn aml, mae'r dyraniadau hyn yn effeithio ar flynyddoedd yn y dyfodol ac mewn sefyllfaoedd o'r fath, rydym yn awyddus i helpu ein rhanddeiliaid i graffu ar ein penderfyniadau yn gyffredinol.

Yng nghyd-destun y flwyddyn ariannol bresennol, gwnaethom lwyddo i flaenoriaethu'r dyraniad ariannol ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd yn 2014-15. Cyhoeddwyd hyn ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2015-16, a gyhoeddodd fuddsoddiad ychwanegol sylweddol i'r gwasanaeth iechyd hefyd yn 2015-16. O ganlyniad i'r dull gweithredu hwn, llwyddwyd i wneud cymhariaeth gliriach o flwyddyn i flwyddyn rhwng y sefyllfa ariannol yn y flwyddyn ariannol bresennol a'r cynigion yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16.

Mae proses y Gyllideb Atodol yn rhoi cyfle pellach i graffu ar benderfyniadau gwariant yn ystod y flwyddyn. Yng nghyd-destun 2014-15, bydd cyfle i graffu'n gadarn ar y cyhoeddiad ariannu a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer iechyd wrth inni gyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2014-15 yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## Cyllid Llywodraeth Leol

**Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywodraeth fesur graddau'r effaith ar wasanaethau nas gwarchodir ac y dylid nodi hyn yn glir yn yr asesiad o effaith strategol.**

**Argymhelliad 17: Er ei fod yn croesawu'r Asesiad Strategol o Effaith, mae gan y Pwyllgor bryderon am y manylder yn y ddogfen ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ddatblygu Asesiadau Integredig Strategol o Effaith yn y dyfodol gyda'r nod o ddarparu mwy o fanylion, yn enwedig pan fo penderfyniadau ariannu yn creu effeithiau negyddol.**

Mae'r Asesiad Integredig Strategol o Effaith Cyllideb Ddrafft 2015-16 (yr Asesiad) yn canolbwyntio ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ein penderfyniadau gwariant allweddol, gan gynnwys y rheini lle y gwnaed newidiadau sylweddol i gyllidebau. Mae mwy o bwyslais ar asesu gwahanol effeithiau cynigion ar yr amrywiol grwpiau o fewn ein cymdeithas, lle maent yn debygol o fod yn sylweddol.

Wrth lunio'r Asesiad, rydym wedi ymateb i adborth gan Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ac wedi rhoi cyfrif cliriach, mwy penodol, o effaith penderfyniadau’r Llywodraeth.

Wrth gwrs, mae cydbwyso ein huchelgais i greu dogfen fwy hygyrch a strategol â'r angen i ddarparu digon o wybodaeth i gefnogi'r broses graffu, yn heriol. Wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol, byddwn yn edrych yn ofalus ar ba wybodaeth rydym wedi'i chynnwys yn yr Asesiad, a byddwn yn ystyried adborth o'r broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft eleni ac o drafodaethau parhaus â Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn ofalus.

**Argymhelliad 15: O gofio'r dyraniad ychwanegol i'r Grant Amddifadedd Disgyblion, mae'r Pwyllgor yn argymell yn gryf y dylid gwneud gwaith i nodi manteision y grant o ran perfformiad disgyblion.**

Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar wefan Llywodraeth Cymru ar 22 Hydref.

Cynhaliwyd y gwerthusiad gan Ipsos Mori a WISERD ac ystyriodd sut y cafodd y Grant ei ddehongli a'i weithredu yn ystod ei flwyddyn gyntaf, a pha effaith y mae'n ei chael ar berfformiad disgyblion ac arferion ysgolion.

Mae'r gwerthusiad yn cynnwys llawer o ganfyddiadau cadarnhaol sy'n ategu ein penderfyniad i ddyrannu arian ychwanegol i'r Grant fel rhan o Gytundeb y Gyllideb. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriadau at y ffaith bod ysgolion, o ganlyniad i gyflwyno'r Grant, yn ariannu cryn dipyn o weithgareddau newydd wedi'u hanelu at helpu disgyblion a nodir yn ddisgyblion difreintiedig ganddynt. Canfu'r gwerthusiad hefyd, er mai cyfran gymharol fach o gyfanswm y gyllideb ysgolion a ddyrennir i'r Grant (llai na 4% ar gyfartaledd), ei fod yn gyfystyr â symiau sylweddol o arian a gaiff eu gwario gan ysgolion ar weithgareddau i fynd i'r afael ag amddifadedd. Yn ogystal, mae dros hanner yr ymyriadau a gaiff eu hariannu ar hyn o bryd drwy ddefnyddio'r Grant (59% mewn ysgolion cynradd, 71% mewn ysgolion uwchradd) yn rhai nad oeddent ar waith mewn ysgolion cyn cyflwyno'r Grant.

Roedd y rhan fwyaf o'r athrawon a holwyd o'r farn bod gweithgareddau a gaiff eu hariannu drwy'r Grant yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u lefelau ymgysylltu. Nododd yr adroddiad hefyd ei bod yn amlwg ei fod wedi arwain at newid diwylliant mewn llawer o ysgolion drwy godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall ysgolion fynd i'r afael ag amddifadedd a monitro effaith ymyriadau sydd wedi'u targedu at ddisgyblion difreintiedig.

Yn y dyfodol, byddwn wrth gwrs yn parhau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y Grant ac yn gweithredu ar y canfyddiadau hyn wrth iddynt ddod i'r amlwg. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ein rhaglenni yn ategu ei gilydd a'u bod yn gweithio tuag at nodau cyffredin, yn unol â'r dull gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

**<u>Gwerth am Arian</u>**

**Argymhelliad 16: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd mwy o ofal i ddangos tystiolaeth bod gwerth am arian**

**yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ariannu. Heb dystiolaeth glir, ni all Pwyllgorau'r Cynulliad na'r cyhoedd weld yn glir p'un a yw polisïau a mentrau'r Llywodraeth yn rhoi gwerth am arian.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn sicrhau gwerth am arian am bob punt a gaiff ei gwario gennym a bod ein penderfyniadau gwariant wedi'u llywio gan dystiolaeth gadarn. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, lle mae'n hanfodol mabwysiadu'r dulliau gweithredu mwyaf costeffeithiol.

Fel y nododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 3 Tachwedd, mae pob Gweinidog yn defnyddio'r cyfoeth o waith ymchwil a thystiolaeth sydd ar gael wrth bennu eu cynlluniau gwariant manwl ac mae nodi gwerth am arian yn un o'r egwyddorion lefel uchel sy'n llywio ein dull gweithredu mewn perthynas â gwaith ymchwil a gwerthuso o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae a wnelo gwerth am arian hefyd â sicrhau ein bod yn ystyried effeithiau ein penderfyniadau gwariant drwy gydol y broses o ddatblygu polisi ac mae'r Asesiad Integredig Strategol o Effaith a gyhoeddwyd gennym ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft yn nodi'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd gennym i ystyried effaith ein penderfyniadau cyllidebol. Ers hynny, rydym hefyd wedi cyhoeddi Adolygiad o'r Dystiolaeth ar Anghydraddoldebau yng Nghymru i ategu'r ystyriaethau hyn yn y dyfodol.

Yng nghyd-destun ystyried gwerth am arian, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd mewnbwn, allbwn a chanlyniadau clir ac rydym wedi ceisio darparu mwy o wybodaeth am y ffordd y mae ein buddsoddiadau yn ategu'r broses o'u cyflawni. Ers 2012, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiad o'r ffordd y mae ein cynigion ar gyfer y gyllideb yn gyson â chanlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu. Eleni, am y tro cyntaf, rydym hefyd wedi dangos sut mae adnoddau yn gyson â'r pedair thema canlyniadau sydd wedi llywio ein dyraniadau cyllidebol. Fel y dywedodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ystod Dadl y Cyfarfod Llawn ar Ran 1 o'r Ymchwiliad i'r Arfer Cyllidebol Gorau, mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu gwaith parhaus y

pwyllgor yn y maes hwn ac rydym yn ymrwymedig i wella ein dull gweithredu yn y dyfodol er mwyn helpu'r Cynulliad i graffu ar ein cynigion ynglŷn â gwariant.